# *Grŵp Ecosystemau Arfordirol Cymru – nodiadau drafft y pedwerydd cyfarfod, 7fed Gorff 2010, CCGC Aberystwyth*

***Yn bresennol:*** Peter Rhind, Cadeirydd (CCGC), Sean McHugh (PBC), Richard Ellis (YG), Chris Wynne (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – Ymddiriedolaethau Natur Cymru), Mike Howe (CCGC); Matty Murphy (CCGC); Duncan Ludlow (CCGC)

***Ymddiheuriadau***: Mark Winder (Dinas a Sir Abertawe); Alec Taylor (CCGC), Nicola Rimington (CCGC); Kerry Seaton (CCGC); Quentin Grimley (CCGC); Steve Moon (CBS Pen-y-bont ar Ogwr); Hilary Foster (AA); Kate Williamson (APC); Alec Taylor (CCGC); Rod Jones (CCGC).

| ***Gweithredu / pwynt trafod*** | ***Trafodaeth*** | ***Gweithredu ar unwaith*** | ***Nodiadau ychwanegol*** |
|---|---|---|---|
| ***1. Cyflwyniad*** | | | |
| | Rhoddodd Peter Rhind ddiweddariad byr ar y gweithdy BAP a gynhaliwyd ar 13eg Mai yn Abertawe gyda chynrychiolaeth o'r grwpiau ecosystem/rhywogaethau, yn cynnwys arfordirol. Crynodeb: mae blaenoriaethu yn allweddol; angen gwell cysylltiadau ag SMPs; angen diweddaru fframwaith gweithredu'r Grŵp Arfordirol; bydd BARS yn datblygu'n iaith gyffredin gyda ymwybyddiaeth ofodol a fydd yn help i fapio cyfleoedd. Mae LlC wedi cydnabod y grwpiau ecosystemau a rhywogaethau'n ffurfiol fel ymgynghoreion annibynnol. Caiff protocolau eu | 1) Bydd Peter yn egluro sut mae'r Grŵp Ecosystemau Arfordirol yn ymateb o ystyried bod llawer o'r aelodau'n dod o CCGC.<br><br>2) Sean i gylchredeg negeseuon allweddol y Grŵp Ecosystemau Arfordirol i'r LBAPs | Dolen at gynnyrch y gweithdy BAP: http://www.biodiversitywales.org.uk/sg_meetings-130.aspx ; sgroliwch i lawr i SG11 papur 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | datblygu i ddiffinio rôl CCGC a PBC mewn digwyddiadau ymgynghori. Pwyntiau eraill a godwyd: oes angen logo/hunaniaeth i'r Grŵp Ecosystemau Arfordirol? Angen cylchredeg negeseuon allweddol y Grŵp i LBAPs | | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diweddaf** | Bydd Sean McHugh yn atodi'r rhain at y cofnodion terfynol | 3) Bydd Sean McHugh yn atodi diweddariad camau gweithredu Cyfarfod 3 y Grŵp at y cofnodion terfynol. | |
| **3. Y pethau sy'n sbarduno Polisi Arfordirol a Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol** | Mae Alec Taylor wedi cylchredeg deddfwriaeth sy'n effeithio ar gynefinoedd arfordirol i'r Grŵp.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar naratif ar Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Croesawyd y dull rheoli ar lefel yr ecosystem, a sefydlu ecosystemau fel ystyriaeth brif ffrwd yn sgil hynny. Gallai tensiynau fodoli rhwng safleoedd arbennig (gwerth cynhenid) a darparu gwasanaethau ecosystem – nid ydym am danseilio'r hyn sydd wedi gweithio o'r blaen. Angen gweithio ar y sylfaen tystiolaeth. Gwrthdaro posibl oherwydd gellid gofyn i grwpiau ecosystem ymrwymo i gynllun Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol nad ydynt yn cytuno ag ef. | 4) Bydd Peter yn diweddaru dogfen bolisi Alec ac yn ei chylchredeg i'r grŵp cyn ei chyflwyno i Grŵp Polisi PBC.<br><br>5) Y Grŵp i ymateb i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Anfon sylwadau at Sean iddo eu casglu ynghyd. | |

| *4. Taenlen cynllun gweithredu'r Grŵp Ecosystemau Arfordirol* | | | |
|---|---|---|---|
| | Swyddogaeth y daenlen weithredu yw blaenoriaethu'r camau gweithredu ac awgrymu gweithredu/ardaloedd cynefin y gallai partneriaid PBC yn cynnwys LBAPs ganolbwyntio arnynt.<br><br>Fel y nodwyd, mae angen diweddaru'r daenlen a phennu blaenoriaethau. Byddai'n hynod ddefnyddiol pe bai'r Grŵp yn cytuno ar brosiect(au) i'w symud ymlaen i weithredu fel catalydd i gwaith y Grŵp. Y nod yw dewis 4-6 prosiect allweddol ar draws ystod dda o brosiectau.<br><br>Sylwch: Mae Mike Howe wedi casglu'r haenau GIS arfordirol ac maent wedi'u cylchredeg.<br><br>Roedd arian yn cael ei gydnabod yn broblem fawr o ran symud prosiectau ymlaen. Gall yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol helpu a bydd yn symud hyn ymlaen gyda CCGC a swyddogion ariannu allanol yr YG. | 6) Pawb i adolygu prosiectau/cyfleoedd arfordirol lefel uchel a'u hanfon at Peter Rhind i'w casglu ynghyd.<br><br>7) Peter Rhind i ddistyllu'r rhestr wreiddiol a gynhwyswyd yn y fframwaith gweithredu a'i chylchredeg i'r Grŵp.<br><br>8) Richard Ellis i gysylltu â staff ariannu allanol i drafod prosiectau arfordirol poisb.<br><br>9) Sean McHugh i gysylltu ag AA ynglŷn â: swyddog ailalinio dan reolaeth a phrosiect ailalinio arfordirol posib i Gymru. | Dolen at borth ailalinio dan reolaeth y DU: http://www.abpmer.net/omreg/ |
| **5 a 6. Adfer symudedd twyni** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **tywod a choedwigaeth** | | | |
| | Mae Peter Rhind wedi cysylltu â Chris Tucker (Comisiwn Coedwigaeth) ynglŷn â choedwigaeth ar dwyni tywod, e.e. Niwbwrch, Pen-bre, Morfa Harlech ond mae angen i'r Comisiwn gyhoeddi datganiad polisi ynglŷn â choedwigaeth ar dwyni tywod. Mae cynllun coedwigaeth yn cael ei ddatblygu i Niwbwrch ar hyn o bryd. Cynhelir gweithdy adfer symudedd twyni tywod yng ngwanwyn 2011 ac mae adroddiad i gyd-fynd â hynny. | 10) Peter Rhind i gysylltu â Chris Tucker i gael datganiad polisi'r Comisiwn ynglŷn â choedwigaeth ar dwyni tywod a'i gylchredeg i'r grŵp.<br><br>11) Peter Rhind i gylchredeg yr adroddiad ar adfer symudedd twyni tywod. | Dolen at dudalen adnoddau Ecosystem Arfordirol PBC: http://www.biodiversitywales.org.uk/bap_in_wales-27.aspx (sgroliwch i lawr i'r adran arfordirol) |
| **7. Targedau morfa heli** | Caiff y rhain eu symud ymlaen gan y grŵp morol gyda mewnbwn gan y Grŵp hwn. Bydd prosiectau ailalinio arfordirol yn bwysig. Bellach mae gan AA gynlluniau rheoli lefel dŵr sy'n rhoi sylw i gadwraeth natur ac mae hyn wedi arwain at waith ailalinio. Mae Fairborne ym Moryd Mawddach yn cael ei ystyried ar gyfer ailalinio dan reolaeth. | 12) Pawb: Y Grŵp i fonitro rhaglenni ailalinio dan reolaeth a rhoi mewnbwn fel sy'n briodol. | Dolen at borth ailalinio dan reolaeth y DU: http://www.abpmer.net/omreg/ |
| **8. Safleoedd anstatudol a SINCS** | Roedd Peter wedi cael adborth gan Dan Guest a Dave Allen (ill dau o CCGC) ynglŷn â: gwerth cadwraeth cynefinoedd y tu allan i safleoedd dynodedig a'u gwerth yng nghyd-destun y DU a Chymru. Mae Erthygl 10 o'r | 13) Peter Rhind i gylchredeg diweddariad SINC CCGC.<br><br>14) Sean McHugh i wahodd Dan Guest i gyfarfod nesaf y Grŵp (yn bersonol neu drwy fideogynadledda). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rheoliadau Cynefinoedd yn ymdrin â gweithredu ar sail 'cefn gwlad yn ehangach'. Mae'r rhan fwyaf o dwyni tywod mewn ACA ond mae cynefinoedd eraill y tu allan iddynt e.e. rhostir arfordirol. Mae'r pwyslais ar fonitro cyflwr safleoedd. Codwyd pryder pa un a fydd monitro SINC yn tynnu adnoddau oddi wrth fonitro safleoedd dynodedig. Bydd CCGC yn cynhyrchu strategaeth cadw golwg i ymdrin â hyn a bydd angen gwybodaeth SINC ddigidol. | | |
| **9. Haen GIS** | Wedi'i gynnwys yn gynharach | | |
| **10. Cynlluniau Rheoli Traethlin** | Wedi'i gynnwys yn gynharach | | |
| ***11. Persbectif LBAP*** | | | |
| | Yn anffodus nid oedd cynrychiolydd LBAP yn gallu bod yn bresennol. | 15) Sean McHugh i gylchredeg adroddiad seminar BAP Abertawe i'r Grŵp.<br><br>Sean McHugh i gylchredeg pwyntiau allweddol o'r cyfarfod (gweler Cam Gweithredu 2) | |
| ***12. Mynediad arfordirol a chadwraeth*** | | | |
| | Mae strategaeth CCGC "Mwynhau'r Awyr Agored" wedi cael ei rhyddhau.<br>Yn ardal Arfon a Chonwy mae sylw wedi cael ei roi i sut y bydd newid arfordirol yn effeithio ar y llwybr – prawfesur o ran hinsawdd – ac mae hyn yn fodel da i ardaloedd eraill. | 16) Peter Rhind i gylchredeg "Mwynhau'r Awyr Agored" i'r Grŵp. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diweddariad: Pleidleisiwyd mai Llwybr Arfordir Sir Benfro yw'r gorau ym Mhrydain. | | |
| ***13. Unrhyw fater arall*** | | | |
| | Nodwyd bod y nifer yn y cyfarfod yn isel ac nad oedd LlC yn gallu bod yn bresennol. Dywedodd Peter Rhind wrth y Grŵp mai'r Fframwaith Gweithredu Arfordirol fydd y flaenoriaeth uchaf yn y 6 wythnos nesaf. | 17) Sean McHugh i ymchwilio i bresenoldeb LlC yng nghyfarfodydd y Grŵp. | |
| ***Dyddiad y cyfarfod nesaf –*** **Ebr/Mai 2011 yn Sir Benfro.** ***Dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau.*** | Aros dros nos o bosib ac ymweliad maes. | 18) Peter Rhind i gadarnhau dyddiad a lleoliad y cyfarfod i'r Grŵp. | |